# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd a Chyngor Ewrop ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol

**Ebrill 2005**

**Aelodau'r Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru |

**Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd a Chyngor Ewrop ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol.**

**Cyflwyniad**

1. Cyhoeddwyd y Gyfarwyddeb arfaethedig ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 5 Mawrth 2004. Ei nod yw dileu rhwystrau sy'n atal darparwyr gwasanaethau rhag sefydlu a rhoi rhyddid iddynt ddarparu gwasanaethau yn unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd yn ceisio gwneud hyn drwy roi sicrwydd cyfreithiol i'r rheini sy'n rhoi ac yn derbyn gwasanaethau er mwyn arfer y rhyddid sylfaenol sydd wedi'i ymgorffori yn y Cytuniad.

2. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y Gyfarwyddeb ar ddiwedd 2004 pan leisiwyd pryder am yr effaith y byddai'n ei gael ar y gwasanaethau iechyd a'u darparwyr. Yn ystod yr amser a oedd ar gael, penderfynodd y Pwyllgor gynnal archwiliad cyfyngedig o'r Gyfarwyddeb. Gofynnodd y Pwyllgor i Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW), Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru a TUC Cymru. Yn dilyn hynny, derbyniodd y Pwyllgor bapur gan Gynghrair Rheolwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU ar Ewrop (AURE) sydd wedi lleisio pryder am y Gyfarwyddeb yn ddiweddar wrth y Comisiwn Ewropeaidd ac Aelodau Seneddol Ewrop.

3. Yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2005 clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan MBA Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru a CBI Cymru. Yna estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i'r DTI i drafod safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater.

**Cefndir**

4. Mae'r Gyfarwyddeb yn tarddu o'r broses o ddiwygio economaidd a lansiwyd gan Gyngor Ewropeaidd Libson ym mis Mawrth. Y nod oedd datblygu'r UE fel yr economi-sy'n-seliedig-ar-wybodaeth fwyaf cystadleuol a deinamig yn y byd erbyn 2010. Daeth y Pwyllgor hefyd i'r casgliad na fu modd manteisio ar y potensial sylweddol o ran twf economaidd ac o ran creu swyddi yn y sector gwasanaethau oherwydd yr holl rwystrau a oedd yn ei atal rhag datblygu.

5. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi bod gwasanaethau'n gyfrifol am 70% o CDC yr UE. Fodd bynnag, gan fod llawer o wasanaethau, o reidrwydd, yn cael eu darparu'n lleol, maent yn llai tebygol o ymddangos mewn masnach. Amcangyfrifir bod gwasanaethau'n gyfrifol am oddeutu 20% o fasnach y DU. Mae hyn yn amlwg yn rhan sylweddol o economi'r UE a dylid dileu'r rhwystrau i'r rhain lle bynnag y bo modd yn unol â Chytuniad yr UE.

## Egwyddor 'Y Wlad Wreiddiol'

6. Un pryder penodol a roddwyd gerbron y Pwyllgor oedd hwnnw'n ymwneud ag egwyddor 'y wlad wreiddiol' pan na fydd darparwr gwasanaeth o un o wledydd yr UE yn cael ei rwystro rhag darparu gwasanaeth mewn gwlad arall cyn belled â'i fod yn glynu wrth gyfraith ei wlad ei hun ('y wlad wreiddiol') yn hytrach na chyfraith y wlad lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

7. Roedd pryder yng nghyswllt rhai gwasanaethau arbennig, yn enwedig y rheini yn y sector iechyd, ac y byddai safon y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion yn gostwng oherwydd:

- gostyngiad mewn safonau proffesiynol;

- gostyngiad mewn lefelau iechyd a diogelwch neu safonau gweithredu eraill; ac yn benodol;

- byddai'n anodd i'r DU gynnal safonau o ran nifer y personél mewn ysbytai a chartrefi gorffwys.

## Tystiolaeth a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor

8. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor o blaid yr egwyddor o ganiatáu cystadleuaeth ym marchnad y sector gwasanaethau ond roedd cryn bryder na fyddai hyn yn digwydd heb fesurau priodol i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn y sector iechyd.

9. Dadl y BMA, TUC ac AURE oedd na ddylid cynnwys y gwasanaethau iechyd yng nghwmpas y Gyfarwyddeb oherwydd natur 'bersonol' y gwasanaethau hyn ac oherwydd ei bod mor bwysig darparu gofal iechyd integredig. Roeddynt o'r farn na fyddai'r Gyfarwyddeb, fel y'i cyflwynwyd, yn gweithio oherwydd bod y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y DU yn cydweithio mor agos i ddarparu gwasanaethau iechyd.

10. Dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru y byddai egwyddor ‘y wlad wreiddiol’ yn dileu'r rheoliadau Rheoli Mynediad sy'n berthnasol i'r gwasanaethau fferyllol sydd ar gael yng nghymunedau Cymru; rheoliadau y mae'r proffesiwn fferylliaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynegi barn gref arnynt yn ddiweddar. Roeddynt o'r farn na ddylai cleifion orfod ymchwilio i gael gwybod pa ddeddfwriaeth genedlaethol oedd yn berthnasol i'w darparwr a faint o amddiffyniad roedd y gyfraith yn ei roi iddynt. Roeddynt o'r farn y byddai'r gwaith o oruchwylio gwasanaeth gan yr Aelod-wladwriaeth wreiddiol yn llawer rhy gostus yn ariannol ac o ran adnoddau.

11. Dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru hefyd fod y Gyfarwyddeb yn groes i'r polisi a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r proffesiwn, ar gyfer fferylliaeth gymunedol yng nghymunedau Cymru. Roedd y contract newydd ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru yn

cael ei weithredu ar hyn o bryd drwy gyfres o Reoliadau Diwygio drafft cymhleth, yn benodol ar gyfer Cymru, ac roedd y Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n cynnal proses graffu a thrafod gyhoeddus. Byddai’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau'n golygu na fyddai'r contract newydd yng Nghymru yn berthnasol i'r holl fferyllwyr cymunedol a oedd yn gweithio yng Nghymru.

12. Dadleuodd cynrychiolwyr o'r CBI a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd fod llawer o'r pryderon ynghylch gostwng safonau'n ddi-sail oherwydd ar hyn o bryd roedd yr holl Aelod-wladwriaethau'n gweithio'n unol â safonau sylfaenol cytunedig a oedd yn cael eu derbyn a'u cymhwyso ar draws yr UE. Hefyd, pan oedd gwledydd yr UE wedi dod ar draws anghysonderau o'r fath o ran safonau yn y gorffennol, roeddynt wedi arwain bob amser at godi'r lefelau yn hytrach na'u gostwng.

13. Mae llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn awyddus i eithrio'r gwasanaethau gofal iechyd a gaiff eu hariannu gan arian cyhoeddus, h.y.:

- Gwasanaethau a ddarperir gan system gofal iechyd a gaiff ei hariannu gan arian cyhoeddus;
- Y swyddogaethau y mae systemau iechyd gofal a gaiff eu hariannu gan arian cyhoeddus yn eu defnyddio i drefnu i gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd;
- Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol yn ôl contract neu drefniant â systemau iechyd gofal a gaiff eu hariannu gan arian cyhoeddus.

14. Dim ond i wasanaethau iechyd uniongyrchol y byddai'r eithriadau hyn yn berthnasol, ac ni fyddai'n golygu bod y rheini sy'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â gofal (megis gwasanaethau cyfrifyddu) i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu heithrio o'r Gyfarwyddeb.

15. Mae llywodraeth y DU hefyd yn ceisio sicrhau na chaiff trethi a phensiynau galwedigaethol eu cynnwys yn y Gyfarwyddeb.

**Casgliadau**

16. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r Gyfarwyddeb ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol ac yn credu y bydd yn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn yr UE a, thrwy ddileu llawer o'r rhwystrau presennol, bydd yn gwneud y farchnad yn fwy agored drwy'r UE gyfan.

17. Er hyn, mae'n rhannu'r pryderon a glywyd am yr anawsterau y gallai'r Gyfarwyddeb, ar ei ffurf bresennol, greu i wasanaethau yn y sector iechyd. Mae'n nodi'n benodol sut y mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn cydweithio fwyfwy o ran gwasanaethau fferyllol ac os nad yw'r Gyfarwyddeb yn cynnwys y mesurau diogelwch priodol, mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryder y gallai lesteirio'r datblygiad pwysig ac arloesol hwn. Mae pryderon tebyg o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol y byddai'r Gyfarwyddeb yn effeithio arnynt ar ffurf y drafft presennol.

18. Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn rhannu'r pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer y Gyfarwyddeb ac yn teimlo y gall fod yn rhy uchelgeisiol . Mae'n gweld cryn dipyn o blaid yr awgrym y dylid cymhwyso egwyddor 'y wlad wreiddiol' i bob sector yn ei dro, yn ôl amserlen sy'n rhoi digon o amser i drafod ac i gytuno ar fesurau i sicrhau cysondeb.

19. Nododd y Pwyllgor fod llawer o'r pryderon yn ymwneud ag egwyddor 'y wlad wreiddiol' yng nghyswllt sgiliau darparwyr o wledydd eraill, yn cael eu lleddfu yng nghyd-destun offerynnau presennol y CE sy'n delio â chydnabod cymwysterau gwahanol wledydd. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cynigion y Comisiwn yn cynnwys rhanddirymiad o egwyddor 'y wlad wreiddiol' mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb cydgrynhoi arfaethedig ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

20. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhannu pryderon gwahanol gyrff, ym maes gofal iechyd yn bennaf, sy'n amau pa mor ymarferol yw cynigion y Comisiwn y dylai Aelod-wladwriaeth y wlad wreiddiol oruchwylio'r gwasanaethau a ddarperir mewn Aelod-wladwriaethau eraill. Ymddengys bod hyn yn arbennig o anodd ym maes gwasanaethau gofal iechyd lle y gall beryglu iechyd cleifion.

21. Nododd y Pwyllgor na fyddai darpariaethau'r Gyfarwyddeb yn cael blaenoriaeth dros reoliadau cyflogaeth lleol megis lefelau isafswm cyflog a safonau eraill.

22. Yn amodol ar y pwyntiau hyn, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Masnach a Diwydiant yng nghyswllt y Gyfarwyddeb.

**Ebrill 2005**